Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# “Creu”

## Rhaglen Ariannu’r Celfyddydau gydag arian y Loteri Genedlaethol

Ebrill 2021

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n darparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran **mynediad** ac rydych yn ystyried cyflwyno cais, gallwn helpu i sicrhau y cewch gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru i drafod sut y gallwn helpu.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru bolisi cyfle cyfartal ar waith.

## Beth i'w wneud os na allwch chi dderbyn arian o'r Loteri Genedlaethol

Os nad ydych chi'n gallu derbyn arian Loteri Genedlaethol am unrhyw resymau, dylech chi lanlwytho llythyr gyda'ch cais yn esbonio pam mae hyn yn wir. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o arian o ffynonellau eraill.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 4 |
| Am y rhaglen | 5 |
| Am beth alla i ymgeisio? | 6 |
| Y mathau o brosiectau rydym ni am eu cefnogi | 8 |
| Pwy all ymgeisio? | 12 |
| Am faint alla i ymgeisio? | 12 |
| Dyddiadau cau ymgeisio | 13 |
| Beth yw'r meini prawf? | 14 |
| Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb? | 15 |
| Rhestr wirio ceisiadau | 19 |
| Beth os oes gen i gwestiwn? | 20 |

## Croeso

Croeso i Greu, un o'n rhaglenni ariannu'r Loteri Genedlaethol.

Yma mae'r holl wybodaeth ichi lunio eich cais. Darllenwch ein canllaw, Arian y Loteri Genedlaethol: gwybodaeth angenrheidiol i ymgeisio ochr yn ochr â'r ddogfen yma. Mae yno'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am ein blaenoriaethau, cymhwysedd, costau priodol a chymorth ychwanegol sydd ar gael ichi allu cyflwyno eich cais gorau.

Ond cyn inni fanylu ar y rhaglen, am ba fath o brosiectau rydym ni'n chwilio?

Mae'r byd wedi newid ar ôl y pandemig. Wrth inni gynllunio ar gyfer dyfodol newydd, rydym ni am gefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael â dyfodol newydd. Rydym ni'n edrych o'r newydd ar sut i sicrhau sector celfyddydol cryf a gwydn sy'n adlewyrchu'r ystod lawnaf o'n pobl a'n cymunedau.

## Am y rhaglen

- Mae “Creu” yn ariannu'r gwaith o ddatblygu a chreu profiadau celfyddydol o safon sy'n helpu unigolion a sefydliadau creadigol i ymgysylltu â'r cyhoedd

- Mae “Creu” yn darparu cyfleoedd i unigolion a sefydliadau gynhyrchu a chyflwyno eu gwaith gorau. Gall hyn olygu ariannu'r gwaith o gynhyrchu a chyflwyno gwaith, datblygu syniadau newydd a/neu gefnogi unigolion neu sefydliadau i ddatblygu drwy hyfforddiant neu newid neu dyfu eu busnes

- Mae “Creu” yn cefnogi ein blaenoriaethau yn ein cynllun corfforaethol, "Er Budd Pawb". Bydd y rhaglen yn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth, y Gymraeg, meithrin talent greadigol a chefnogi gwytnwch y sector

- Mae “Creu” yn dangos ein hymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Contract Diwylliannol gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod pwrpas diwylliannol a chymdeithasol i'n harian cyhoeddus. Felly bydd disgwyl i bopeth a gefnogir drwy'r gronfa ddangos ymrwymiad i'r egwyddorion

- Gallwn dderbyn ceisiadau am £500-£50,000 (£100,000 mewn amgylchiadau eithriadol i sefydliadau gan gynnwys gwyliau drwy gytundeb ymlaen llaw â'ch Swyddog Datblygu)

- Gall ceisiadau gael eu cyflwyno gan sefydliad neu unigolyn cymwys. Gallwch wirio pwy sy'n gymwys yma

- Mae'n debyg y bydd cystadleuaeth sylweddol am yr arian sydd ar gael. Efallai na allwn ariannu'r holl geisiadau cymwys a gawn. Ni all ymgeisio warantu llwyddo felly

- Bydd ein penderfyniadau ariannu yn cael eu llywio gan ganllawiau, polisïau neu gyfyngiadau’r pandemig gan Lywodraeth Cymru

## Am beth alla i ymgeisio?

Gall y rhaglen gefnogi unigolion, sefydliadau a chymunedau i ddatblygu syniadau, creu a chomisiynu gwaith, datblygu rhagor o wytnwch a phrofi'r celfyddydau yn ystod 2021 a’r tu hwnt.

Rydym ni am ddarparu'r rhyddid a'r hyblygrwydd i unigolion a sefydliadau ymgeisio i wneud a fynnant i fodloni ein blaenoriaethau.

Byddwn ni’n ariannu prosiectau sy'n caniatáu i unigolion a sefydliadau archwilio ffyrdd newydd o hyrwyddo gweithgarwch creadigol mewn sefyllfa o ymbellhau cymdeithasol, gan gynnwys modelau byw a digidol cyfunol. Bydd angen i unrhyw brosiectau rydym ni’n eu cefnogi fod yn ddigon hyblyg i sicrhau budd a chysylltiad cyhoeddus â chynulleidfa/buddiolwyr, waeth beth fo cyfyngiadau’r pandemig.

Bydd angen i bob cais ddangos sut y maent yn datblygu ein blaenoriaethau mewn un neu ragor o'r meysydd canlynol:

- cydraddoldeb ac amrywiaeth - hyrwyddo blaenoriaethau’r Cyngor o ran pobl F/fyddar, anabl, ethnig a diwylliannol amrywiol, a'r rhai â nodweddion gwarchodedig
- cyrraedd cymunedau heb eu cynrychioli'n ddigonol, yn ddiwylliannol, yn ddaearyddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd
- y Gymraeg
- meithrin talent greadigol
- datblygu partneriaethau i wireddu uchelgais artistig mewn ffyrdd dychmygus
- cryfhau gallu a gwytnwch y celfyddydau i fod yn fwy deinamig a chynaliadwy (datblygu model busnes sy'n gweithio dan yr amgylchiadau presennol)

Gallai hyn gynnwys:

- Ymchwil a datblygu
- Creu gwaith
- Cyflwyno, arddangos a theithio gwaith
- Gwyliau
- Gwaith ymgysylltu â'r gymuned
- Gweithgarwch cyfranogol
- Hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol i wella ymarfer creadigol a buddsoddi yn y sgiliau a fydd yn cefnogi adeiladu gyrfa gynaliadwy yng Nghymru (ond nid addysg ffurfiol fel cyrsiau gradd neu ddosbarthiadau wythnosol)

- Datblygu neu ailfodelu busnes (ond nid busnesau newydd)

Gallai ceisiadau gynnwys cymysgedd o weithgarwch, er enghraifft creu gwaith ynghyd â hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Rydym ni am annog gweithgarwch creadigol ond rydym ni’n ymwybodol o beryglon y pandemig i gynulleidfaoedd a thimau creadigol. Dylai pawb ohonom ddilyn penderfyniadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am yr hyn sy'n ddiogel.

Dan yr amgylchiadau presennol, mae ceisiadau yn y meysydd canlynol yn annhebygol o gael blaenoriaeth:

- cyflwyno gwaith ar gyfer lleoliadau dan do cyn Hydref 2021
- cyflwyno gwaith awyr agored ar raddfa fawr yn 2021 nad yw'n ystyried ymbellhau cymdeithasol
- gwaith teithiol cyn Gwanwyn 2022
- prosiectau sydd angen eu teithio’n rhyngwladol yn 2021

## Y mathau o brosiectau rydym ni am eu cefnogi

Rydym ni'n chwilio am ganlyniadau ymarferol sy'n gwneud gwahaniaeth. Chi sy'n penderfynu sut i gyrraedd, ond efallai y bydd yn ddefnyddiol deall y mathau o brosiectau rydym ni'n gobeithio eu hariannu. (Cofiwch nad rhestr gynhwysfawr sydd yma.)

| Rydym ni eisiau gweld... | Yn hytrach na... | Efallai bod hyn yn ymddangos fel... |
|---|---|---|
| Prosiectau sy'n edrych yn ddychmygus ar ble (ac ym mha ffordd) y gallai pobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. | Prosiectau sy'n ceisio ail-greu'r ffyrdd cyfarwydd cyn y pandemig o weithio, pan fydd profiad yn awgrymu nad yw'r rhain yn gweithio ar hyn o bryd.<br><br>Prosiectau sy'n cyflawni ar gyfer, yn hytrach na chyda, buddiolwyr wedi'u targedu. | Cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan yn greadigol mewn gweithgarwch artistig.<br><br>Prosiectau sy'n cynnwys buddiolwyr wedi'u targedu wrth ddatblygu'r gweithgarwch.<br><br>Prosiectau sy'n datblygu partneriaethau i gefnogi ymgysylltu â chymunedau wedi'u targedu. |
| Ysbrydoli gwyliau celfyddydol sy'n dod o hyd i ffyrdd diddorol o gysylltu â chynulleidfaoedd a chymunedau ac sydd â gweledigaeth arloesol.<br><br>Gwyliau sydd â hanes o gomisiynu a chyflwyno gwaith newydd a darparu cyfleoedd i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol o Gymru. | Casgliad o ddigwyddiadau unigol heb weledigaeth artistig glir na rhesymeg greadigol.<br><br>Prosiectau nad ydynt yn ystyried sut i ddatblygu eu sylfaen cynulleidfaol nac ymestyn at y nifer ehangaf o bobl.<br><br>Prosiectau sy'n glanio mewn cymuned heb fawr o ystyriaeth na gweledigaeth na gwaddol hir dymor. | Datblygu rhaglenni gwaith sy'n annog darganfyddiad artistig newydd a datblygu cymunedol a thalent artistig.<br><br>Meithrin artistiaid o Gymru (drwy lwyfannau, hyfforddiant, dosbarthiadau meistr ac ati).<br><br>Presenoldeb lleol cryf sy'n creu ymdeimlad o le neu'n bywiogi tref neu ardal. |
| Dod â'r rhyngwladol i Gymru: prosiectau creadigol yng Nghymru gyda chysylltiadau rhyngwladol | Cymryd rhan mewn prosiectau dan arweiniad artistiaid neu sefydliadau y tu allan i Brydain.<br><br>Prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gydweithio creadigol ag artistiaid neu gwmnïau rhyngwladol sy'n digwydd naill ai y tu allan i Brydain neu'n ddigidol. | Prosiectau yng Nghymru sy'n cynnwys dimensiwn rhyngwladol unigryw.<br><br>Prosiectau a arweinir neu a grëir mewn partneriaeth â chymunedau rhyngwladol yng Nghymru.<br><br>Prosiectau a grëir ac a arweinir yng Nghymru sy'n cynnwys cyfranogiad artist neu gwmni rhyngwladol. |

| Rydym ni eisiau gweld... | Yn hytrach na... | Efallai bod hyn yn ymddangos fel... |
|---|---|---|
| | (Ar gyfer y mathau yma o brosiectau, ewch at Gronfa y Cyfleoedd Rhyngwladol). | Bydd y prif ffocws ar yr effaith ar gynulleidfaoedd a chymunedau lleol, er y bydd potensial hefyd ar gyfer cyrhaeddiad rhyngwladol.<br><br>Prosiectau arbennig sy'n gwahodd y byd i Gymru, yn bersonol neu'n ddigidol, i brofi celfyddydau a diwylliant Cymru. |
| Meithrin gwybodaeth, sgiliau a gallu yng Nghymru drwy gyfleoedd dysgu gan sefydliadau rhyngwladol. | Cyfleoedd dysgu y gallai ymarferydd neu sefydliad yng Nghymru neu ym Mhrydain eu darparu. | Cyfleoedd dysgu eithriadol, megis hyfforddiant neu fentora gan sefydliad neu ymarferydd rhyngwladol a fydd yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a gallu newydd yng Nghymru. |
| Meithrin gallu drwy ddatblygu a rhannu gwybodaeth ac adnoddau ar draws y sector diwylliannol.<br><br>Annog dysgu a mentora sy'n hyrwyddo rhannu a throsglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd.<br><br>Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau creadigol, technegol a busnes, drwy hyfforddiant a mathau eraill o ddatblygiad proffesiynol. | Gweithio ar wahân heb ystyried effaith na gwerth ehangach y gwaith, y cyfnod ymchwil a datblygu, yr hyfforddiant na'r gweithgarwch datblygiad proffesiynol.<br><br>Prosiectau sy'n methu â dangos sut y bydd canlyniad pendant o'n buddsoddiad.<br><br>Prosiectau nad ydynt yn ystyried effaith y cyfnod ymchwil a datblygu/ cyfleoedd hyfforddiant/ datblygiad proffesiynol ar y budd hir dymor i'r sector penodol a'r un ehangach. | Datblygu gallu ac arbenigedd unigolion – boed yn weithwyr llawrydd neu'n staff sefydliadol – i gynyddu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i ddatblygu ffyrdd newydd o gyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.<br><br>Datblygu syniadau ac uchelgais grwpiau heb eu cynrychioli'n ddigonol megis pobl F/fyddar, anabl, ifanc, ethnig, ddiwylliannol amrywiol a siaradwyr Cymraeg i nodi llwybrau i ddilyn gyrfaoedd yn y sector diwylliannol.<br><br>Prosiectau sy'n datblygu a gwella sgiliau creadigol.<br><br>Prosiectau sy'n ymestyn ac yn dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.<br><br>Prosiectau sy'n datblygu a gwella sgiliau busnes a rheoli i gefnogi'r gwaith creadigol (gan gynnwys cynllunio busnes, codi arian a marchnata). |

| Rydym ni eisiau gweld… | Yn hytrach na… | Efallai bod hyn yn ymddangos fel… |
|---|---|---|
| Cynigion â ffocws sy'n datblygu arfer creadigol yn glir a dangos gwerth am arian. | Cynigion unigol wedi'u gadael heb unrhyw fudd hir dymor i ymarfer creadigol na'r sector ehangach.<br><br>Prosiectau nad ydynt yn ystyried sut y byddant yn ymgysylltu â chynulleidfa neu nad oes ganddynt gynulleidfa glir ar gyfer y gwaith.<br><br>Prosiectau sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar eich talu eich hun i gyflawni gwaith heb unrhyw fuddiolwyr ehangach.<br><br>Prosiectau sy'n cyflawni gwaith ar wahân heb unrhyw un allanol i gadw golwg na chymorth partner o'r tu allan. | Prosiectau sy'n uno elfennau o ddatblygiad proffesiynol (drwy hyfforddiant neu ddatblygiad busnes er enghraifft) ynghyd ag amser i fyfyrio a chreu gwaith.<br><br>Prosiectau sy'n cyfuno carfan o artistiaid unigol neu weithwyr llawrydd creadigol i gyflawni gwaith creadigol, gan wneud y mwyaf o effaith ein harian.<br><br>Prosiectau sydd â chymorth partner i ddarparu cyfaill beirniadol wrth gynllunio, datblygu, creu a/neu gyflawni gwaith neu ddatblygiad unigol. |
| Cynhyrchu gwaith sy'n arloesol ac argyhoeddiadol.<br><br>Gwaith sy'n newydd a chyfoes ac sy'n chwilio am gynulleidfaoedd ehangach i ymgysylltu â nhw. | Prosiectau nad ydynt wedi ystyried yn ddigonol y cynulleidfaoedd y maent yn ceisio eu cyrraedd, na'r rhwystrau a allai eu hatal rhag ymgysylltu.<br><br>Prosiectau nad ydynt wedi dangos ymrwymiad i gyflawni gwaith o safon.<br><br>Prosiectau sy'n ailadrodd hen ffyrdd o weithio ac nad ydynt yn gwneud dim i annog cyfleoedd ar gyfer talent newydd neu dalent sy'n cael ei thangynrychioli.<br><br>Prosiectau tymor byr sy'n creu gweithgarwch nad oes ganddynt gynulleidfa, cyfranogwyr, galw na marchnad amlwg. | Prosiectau sy'n cynnwys cynhyrchwyr neu guraduron yn cydweithio â lleoliadau neu orielau i gydgomisiynu a chyflwyno'r celfyddydau perfformio a gwaith celfyddydol gweledol a chymhwysol yn ehangach.<br><br>Prosiectau sy'n datblygu fformatau newydd a fydd yn cael eu profi a'u gwerthuso drwy broses ymchwil a datblygu.<br><br>Prosiectau sy'n cynnwys creu gwaith gan bobl F/fyddar, anabl, dduon, Asiaidd, ethnig amrywiol, niwroamrywiol a siaradwyr Cymraeg.<br><br>Prosiectau sy'n cynnwys creu gwaith gan y rhai â nodweddion gwarchodedig. |

| Rydym ni eisiau gweld... | Yn hytrach na... | Efallai bod hyn yn ymddangos fel... |
|---|---|---|
| | | Prosiectau sy'n treialu ffyrdd newydd o ddod yn fwy gwydn dan yr amgylchiadau presennol.<br><br>Prosiectau sy'n darparu cyfleoedd i ymgysylltu'n eang ac yn ddwfn â chynulleidfaoedd. |
| Rhaglennu uchelgeisiol, proffesiynol sy'n annog cynulleidfaoedd i fwynhau a phrofi ystod eang o weithgarwch.<br><br>Gwaith rhaglennu lleoliadau ac orielau sydd y tu hwnt i gyrraedd eu busnes craidd, i fynd i'r afael â bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ac ymestyn at gynulleidfaoedd newydd. | Prosiectau nad ydynt yn dangos yn argyhoeddiadol sut maent yn gwella'r rhaglenni presennol.<br><br>Prosiectau nad ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth, y Gymraeg a chyrhaeddiad ehangach. | Rhaglennu gwaith newydd ac arloesol sy'n targedu a chyrraedd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br><br>Rhaglennu gwaith a grëir gan bobl F/fyddar, anabl, dduon, Asiaidd, ethnig amrywiol, niwroamrywiol a siaradwyr Cymraeg.<br><br>Rhaglennu gwaith a grëir gan y rhai â nodweddion gwarchodedig. |

Pan soniwn am **gymunedau**, rydym ni’n gwybod nad yw'r rhain wedi'u cyfyngu i leoedd daearyddol. Mae llawer fath o gymuned – artistig a chreadigol.

Pan soniwn am **gynulleidfaoedd**, rydym ni’n gwybod nad ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n mynychu perfformiad neu arddangosfa. Rydym ni hefyd yn golygu'r rhai sy'n mwynhau a phrofi'r celfyddydau, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud hynny'n ddigidol ac ar-lein.

Mae angen i unigolion sy'n ymgeisio i arwain **gweithgarwch cyfranogol neu weithgarwch** sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol â phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig y bydd partner sefydliadol gyda gweithdrefnau diogelu priodol ar waith ar gyfer y math yma o waith ac yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ddiogelu drwy gydol y prosiect yn unol â'i weithdrefnau diogelu.

## Pwy all ymgeisio?

Mae'r gronfa'n agored i **sefydliadau** ac unigolion.

Os ydych chi'n **sefydliad** a bod gennych grant cyfredol gan y Loteri Genedlaethol gyda ni, rydych chi'n dal yn gymwys i ymgeisio. Rhaid ichi fodloni'r holl feini prawf asesu a bod yn gymwys a dangos y gallwch gyflawni'r prosiect yn effeithiol.

## Am faint alla i ymgeisio?

Gall unigolion a sefydliadau ymgeisio am **£500-£50,000.**

Bydd grantiau hyd at £10,000 yn cael eu hasesu ar sail dreigl. Bydd ceisiadau grant am dros £10,000 yn cael eu hystyried mewn tair rownd ariannu. Rhaid inni edrych ar resymoldeb eich cais a'ch gallu i reoli maint eich prosiect.

Os yw eich cais ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygiad busnes yn unig, ni allwch ymgeisio am ragor na £10,000.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall sefydliadau (gan gynnwys gwyliau) ymgeisio am hyd at £100,000 drwy gytundeb ymlaen llaw â'ch Swyddog Datblygu (yr uchafswm i geisiadau gan unigolion yw £50,000). Yn achos gwyliau, bydd angen ichi ddangos bod eich prosiect:

- yn meddu ar gyfleoedd ymgysylltu drwy gydol y flwyddyn i artistiaid neu gynulleidfaoedd a phroffil rhyngwladol, yn comisiynu gwaith newydd, yn meithrin talent newydd o Gymru a lleisiau heb eu clywed

I sefydliadau eraill sy'n dymuno ymgeisio am hyd at £100,000, rhaid ichi ddangos eich bod yn:

- creu gwaith sy'n gwasanaethu'n fawr gynulleidfaoedd Cymru, yn effeithio ar gynaliadwyedd y sector a gwella gwytnwch
- meddu hefyd ar ddull consortiwm o ddatblygu gwaith neu gyfleoedd

Meddyliwch am faint rydych chi'n ymgeisio gan y bydd cyfyngiadau cyllidebol i nifer y prosiectau mawr y gallwn eu cefnogi.

### Ni allwn ariannu holl gostau eich prosiect

Y ganran uchaf o gostau cymwys eich prosiect y gallwn ei hariannu yw 90%.

Rhaid i weddill incwm eich prosiect ddod o ffynhonnell nad yw'n eiddo i ni. Rhaid i o leiaf 10% o incwm eich prosiect ddod o ffynonellau ar wahân i arian y Loteri Genedlaethol. Gall hyn fod yn gymorth neu'n adnoddau mewn nwyddau sydd â gwerth i'r prosiect, ond heb fod yn arian.

Am ragor o wybodaeth am arian partneriaeth a chefnogaeth mewn nwyddau, darllenwch ein Nodiadau Cymorth.

## Dyddiadau cau ymgeisio

Gallwn dderbyn ceisiadau am **hyd at £10,000** ar unrhyw adeg ar ôl agor ein cyfnod ymgeisio o Fai 2021 ymlaen. Rhaid ichi ganiatáu **o leiaf 6 wythnos waith** rhwng y dyddiad cau a dyddiad dechrau eich prosiect.

Ar gyfer ceisiadau dros £10,000 dyma'r dyddiadau cau:

| Arian ar gyfer | Dyddiad cau | Dyddiad cau | Dyddiad cau |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau hyd at £50,000 (ar gyfer unigolion a sefydliadau gan gynnwys gwyliau) | 5pm 3 Mehefin 2021 | 5pm 25 Awst 2021 | 5pm 13 Hydref 2021 |
| Ceisiadau eithriadol am hyd at £100,000 (i sefydliadau gan gynnwys gwyliau) | 5pm 3 Mehefin 2021 | 5pm 25 Awst 2021 | 5pm 13 Hydref 2021 |

Rhaid ichi ganiatáu **o leiaf 9 wythnos waith** rhwng y dyddiad cau a dyddiad dechrau eich prosiect.

Ni allwn ariannu prosiectau sydd eisoes yn digwydd. Felly ni fyddwn ni’n ariannu eich cais os daw dyddiad dechrau eich prosiect cyn inni gael y cyfle i’w asesu.

Rhaid i’ch cais fod yn gyflawn. Ni fyddwn ni’n derbyn rhagor o wybodaeth ategol ar ôl ichi gyflwyno'ch cais (oni bai mai ni sy’n gofyn amdani).

## Beth yw'r meini prawf?

Byddwn ni’n asesu ceisiadau yn ôl y meini prawf canlynol:

- Safon, cryfder ac arloesedd y cynnig artistig a chyfansoddiad y tîm creadigol – rydym ni’n disgwyl gweld cyfleoedd â chyflog priodol i bobl greadigol, gwneuthurwyr ac artistiaid unigol llawrydd

  Os yw eich cais ar gyfer hyfforddiant/datblygiad proffesiynol neu ddatblygiad busnes/ailfodelu - neu os yw'n rhan o'r cais – dylech esbonio safon a natur y rhai sy'n darparu sgiliau ac arbenigedd. Ystyriwch berthnasedd hyfforddiant i waith eich ymarfer neu'ch sefydliad yn ogystal â sut y bydd y sgiliau o fudd i sector ehangach Cymru

- Cryfder y cynnig i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, y Gymraeg, meithrin talent greadigol a/neu hyrwyddo cynaliadwyedd a gwytnwch y sector

- Effaith bosibl y prosiect yn awr ac yn y dyfodol, a'i fudd i eraill, o ran y rhai a dangynrychiolir yn ein gwaith a'n buddsoddiad

- I ba raddau y mae eich prosiect yn hyrwyddo’r Contract Diwylliannol

- Safon y cysylltiadau neu'r partneriaethau sydd ar waith neu sy'n cael eu datblygu i gefnogi'r prosiect

- Cryfder y cynlluniau rheoli prosiect ac ariannol i gyflawni'r prosiect a defnyddio’r arian cyhoeddus yn briodol

Yn y meini prawf, byddwn ni hefyd yn ystyried lledaeniad daearyddol gweithgarwch fel rhan o'n penderfyniadau.

## Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb?

Rydych chi'n barod yn awr i ddechrau eich cais. Dyma'r cwestiynau:

1. Gwiriadau cyn ymgeisio

   Gwybodaeth ragarweiniol a rhestr wirio cyn ymgeisio.

2. Cysylltu â chi

   Â phwy y dylem gysylltu am eich cais? Hefyd eich dewisiadau iaith a gwybodaeth cyfrif banc.

3. Am eich prosiect

   Gwybodaeth allweddol am eich prosiect, gan gynnwys ei deitl, ei ddyddiad dechrau a gorffen a gwybodaeth gyllidebol bwysig amdano gan gynnwys costau hygyrchedd.

4. Beth yw prif ffocws eich prosiect?

   Defnyddiwch y gwymplen i ddewis prif ffocws y gwaith. Gallwch ymgeisio am fwy nag un elfen yn eich cais, ond bydd hyn yn ein helpu i gymharu ceisiadau.

   - Ymchwil a datblygu
   - Creu cynnyrch i'w gyflwyno
   - Cyflwyno cynnyrch
   - Gŵyl
   - Gwaith ymgysylltu â'r gymuned
   - Gweithgarwch cyfranogol
   - Hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol
   - Datblygu neu ailfodelu busnes

5. Crynodeb o'ch prosiect

   Efallai y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma mewn cyhoeddusrwydd am eich prosiect.

6. **Disgrifiwch eich prosiect, gan ganolbwyntio ar y syniad artistig/creadigol allweddol a'ch rheswm dros ei wneud ar hyn o bryd**

    - Beth ydych chi eisiau gwneud?
    - Pam rydych chi eisiau ei wneud?
    - Sut byddwch chi'n sicrhau safon artistig?
    - Pwy sy'n rhan o'ch tîm creadigol?

7. **Ble bydd y prosiect yn digwydd? Pwy rydych chi am ei gyrraedd gyda'r prosiect? Beth yw'r galw amdano?**

    - Ble bydd eich prosiect yn cael ei gynnal?
    - Pwy yw eich cynulleidfa a/neu gyfranogwyr?
    - Ydych chi'n bwriadu gweithio gyda grwpiau neu gymunedau penodol? Pa fudd rydych chi'n gobeithio ei gael?
    - Pa gyfleoedd datblygu sgiliau fydd i chi, artistiaid eraill, partneriaid a/neu gyfranogwyr?
    - Beth fydd effaith ehangach yr arian?
    - Pwy arall fydd yn elwa?
    - Sut y cynhwysir yn natblygiad y prosiect y rhai a gaiff fudd ohono?
    - Gwaddol y prosiect

8. **Sut y bydd eich prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg?**

9. **Sut y bydd eich prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau o ran meithrin talent greadigol a/neu hyrwyddo cynaliadwyedd a gwytnwch y sector?**

10. **Sut y bydd eich prosiect yn hyrwyddo'r Contract Diwylliannol?**

    Nod y Contract yw annog y rhai sy'n cael arian cyhoeddus i feddwl am ddibenion diwylliannol a chymdeithasol. Rhaid ichi feddwl am y canlynol:

    - **Potensial Twf** – datblygu gweithgarwch cadarnhaol i gefnogi cydnerthedd, arallgyfeirio ac addasu gweithrediadau trwy gynhyrchu incwm, rhannu adnoddau a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i gynnwys a chynorthwyo gweithwyr creadigol proffesiynol ar eu liwt eu hunain yng Nghymru.

- **Gwaith Teg** – sicrhau cyfraddau cyflog priodol, amrywiaeth ymysg aelodau byrddau a gweithluoedd er mwyn cynyddu cyfranogiad ledled y sefydliad ac yn y gwaith rydych yn ei gyflawni, gan, gydag ac i bobl Dduon, Asiaidd ac Amrywiol yn Ethnig, pobl F/fyddar, anabl a niwrowahanol, a phobl â nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

- **Hybu Iechyd, Sgiliau a Dysgu yn y gweithle** – datblygu mentrau sgiliau, dysgu ac iechyd a lles yn y gweithle a'r gymuned, gan gynnwys cefnogi mentrau'r celfyddydau ac iechyd.

- **Cynnydd wrth leihau'ch Ôl Troed Carbon** – mesurau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol a lleihau'ch Ôl Troed Carbon

Fel rhan o hyn, rhaid ichi gadarnhau bod pawb sy'n ymwneud â'r prosiect yn cael o leiaf yr isafswm cyflog cenedlaethol a bod gweithwyr llawrydd yn cael o leiaf y lefel isaf o ffi y cytunir arni gyda'r undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol berthnasol (gweler yr adran yn y Canllawiau am Gostau Prosiect).

11. **Sut y bydd pobl yn dod i wybod am eich prosiect?**

- Beth yw eich gweithgarwch marchnata allweddol?

- Ydych chi'n cynllunio unrhyw waith allgymorth neu ymgysylltu?

- Pa gymorth a gewch gan bartneriaid?

- Sut y byddwch chi'n rhannu eich profiadau a'ch dysgu?

12. **Disgrifiwch eich gwaith a'ch profiad perthnasol hyd yma. Sut mae'r prosiect yn adeiladu ar hyn a chyflawni eich uchelgais?**

13. **Sut y byddwch chi'n rheoli eich prosiect?**

- Beth yw'r cyfnodau allweddol?

- Pwy fydd yn cymryd rhan yng nghyfnodau allweddol cyflawni'r prosiect?

- Sut y byddwch chi'n ei fonitro a'i werthuso drwy gydol y prosiect? Sut byddwch chi'n rhannu'r gwersi a ddysgwch?

14. **Sut y byddwch chi'n sicrhau bod eich prosiect yn ddiogel o ran y pandemig?**

Byddwn ni'n gofyn ichi egluro sut y gall eich prosiect ddigwydd yng nghyfyngiadau'r pandemig gan y Llywodraeth.

- Pa mor debygol yw hi y byddai eich prosiect yn cael ei effeithio gan ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am yr hyn sy'n ddiogel ac yn cael ei ganiatáu?

- Oes gennych gynlluniau amgen i gyflawni eich prosiect?
- Sut byddwch chi'n rheoli newidiadau?

15. **Gyda phwy y byddwch chi'n gweithio i gyflawni'r prosiect?**

16. **Celfyddyd**

    Gwybodaeth am y celfyddydau a fydd yn rhan o'ch prosiect.

17. **Mathau o weithgarwch**

    Gwybodaeth am eich targedau prosiect, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai, a chynulleidfaoedd/mynychwyr.

18. **Targedau**

    Gwybodaeth am eich targedau prosiect, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai, a chynulleidfaoedd/mynychwyr.

19. **Iaith**

    Yr effaith a gaiff y prosiect ar y Gymraeg:

    cadarnhaol, negyddol neu niwtral

20. **Lleoliad**

    Ble bydd eich prosiect yn digwydd?

21. **Cydraddoldeb**

    Gwybodaeth monitro cydraddoldeb am eich prosiect.

## Dogfennau ategol

Ar gyfer ceisiadau dros £10,000 gallwch gyflwyno un ddogfen ategol nad yw'n hwy na 5 tudalen A4 mewn ffont sy'n 12 pwynt neu'n uwch.

## Rhestr wirio ceisiadau

Dyma restr wirio gyflym:

- Ydych chi'n gymwys?
- Ydych chi wedi uwchlwytho eich dogfennau perthnasol? (gwybodaeth banc, dogfennau llywodraethu os oes angen)
- Ydych chi wedi nodi un (neu ragor) o'n hamcanion corfforaethol mae eich prosiect yn ei gyflawni?
- Ydych chi wedi nodi o leiaf un brif raglen y mae eich prosiect yn syrthio iddi?

Os gallwch ateb yn gadarnhaol y cwestiynau uchod, rydych chi’n barod i ddechrau eich cais. Gallwch ddarllen ein Nodiadau Cymorth am ragor o fanylion am sut i lenwi'ch ffurflen gais. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â ni drwy’r ffyrdd isod.

## Beth os oes gen i gwestiwn?

Os ydych chi eisiau gwybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys, neu os hoffech drafod cwestiynau eraill am y gronfa hon, dylech gysylltu â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth.

Gallwch wneud hyn trwy e-bost, trwy ein gwefan neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: Llenwi ffurflen ar ein gwefan

Twitter: Anfon trydariad atom @Celf_Cymru

Ein nod yw ymateb i bob ymholiad yn fuan iawn. Os ydych chi eisiau i ni eich ffonio'n ôl, rhowch eich rhif cyswllt a byddwn yn trefnu cysylltu â chi cyn gynted ag sy'n bosibl.

03301 242733

9.00am - 5.00pm ddydd Llun-Iau

9.00am - 4.30pm ddydd Gwener

Cysylltwch â ni

Cyngor Celfyddydau Cymru

@Celf_Cymru

celfcymruarts